COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Hydref 14eg, 2015 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

John E. Griffiths, Catherine Ll. Morris, Cyng. John B. Hughes

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Awgrymodd yr Is-gadeirydd y dylid anfon llongyfarchiadau'r Cyngor at ddisgyblion Ysgol Sarn Bach am ennill gwobr am fod y rhai gorau trwy ddalgylch Botwnnog a Glan-y-Môr am ddefnyddio Canolfan Hamdden Dwyfor yn ystod gwyliau'r haf – gwobrwywyd hwy ag amrywiol offer ymarfer corff; cydsyniodd pawb â'r awgrym.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fedi 9fed, 2015 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau â * gan yr Is-bwyllgor Cynllunio, sef aelod o bob ward, i gydymffurfio â dyddiadau cyflwyno sylwadau arnynt a'r gweddill â ** heno:

C15/0383/39/LL Cais Diwygiedig i ddymchwel gwesty presennol a phwll nofio (ac eithrio'r adeilad gwreiddiol) ac ailddatblygu'r safle ar gyfer 10 tŷ preswyl, 5 fflat preswyl, uned manwerthu A1, adeiladau storio beic, clwydfan ystlumod a 31 lle parcio – Riverside Hotel and Restaurant,** Aber-soch **– Gwrthwynebiad unfrydol, fel sawl trigolyn, ar sail yr un sylwadau a gyflwynwyd ar gyfer y cais gwreiddiol rhif C12/0441/39/LL ym mis Rhagfyr 2012 oherwydd: 1. saif ar lan Afon Soch ac, o gofio am lifogydd, ni ddylid ystyried y cais o gwbl oherwydd y gorlifdir, ynghyd â lleoliad llifddorau'r afoch ochr arall i wal fynedfa'r safle; 2. gorddatblygiad mewn safle cyfyng a fyddai'n amharu ar welediad/golau y tai ar Lôn Engan ac mewn AHNE; 3. mynedfa'r safle – mae'n ddigon perygl ar gyffordd brysur Lôn Engan a Lôn Pont**

Morgan heb ychwanegu 30+ modur; 4. mae angen tai fforddiadwy yn y cynllun hefyd.

[Adroddodd Cyng. Wyn Williams y gofynnodd i'r datblygwr gynnal arddangosfa o'r cynlluniau diwygiedig am fore yn y Neuadd er mwyn i'r gymuned gael cyfle i'w gweld a mynegi barn arnynt ond, hynny i'w gadarnhau.]

**C15/0878/39/LL	Lolfa haul ar flaen y tŷ – Parc y Delyn, 6 Ystâd Sant Tudwal, Mynytho **– Cefnogi**
C15/0879/39/DA	Cais diwygiad ansylweddol i newid lleoliad a dyluniad modurdy a ganiatawyd dan Ganiatâd Rhif C13/0025/389/LL – 19 Lôn Hawen, Aber-soch (Dim angen sylwadau)
C150913/39/AC	Rhyddhau Amod 6 o Ganiatâd Cynllunio C15/0616/39/LL sydd yn ymwneud ag arllwysiad dŵr aflan a wyneb – Carisbrooke Hotel, Aber-soch (Dim angen sylwadau)
*C15/0927/39/LL	Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi estyniad yn ei le gyda rhan to fflat yn cysylltu yr estyniad i'r bwthyn, ynghyd ag addasiadau i'r bwthyn – Rewig, Cilan [Is-bwyllgor Cynllunio – **Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad – gan ei fod yn fan amlwg ar boncan]**
*C15/0928/39/HY	Cais Ôl-weithredol – Cais i gadw arwydd – Bryn Cethin Bach Caravan Park, Aber-soch [Is-bwyllgor Cynllunio – **Cefnogwyd**]
*C15/0952/39/LL	Estyniad ac addasiadau yn cynnwys estyniad deulawr cefn, newidiadau i do estyniadau ochr presennol ac adeiladu porth blaen – Murpoeth, Cilan [Is-bwyllgor Cynllunio eisoes – **Cefnogwyd**]
*C15/0954/39/LL	Newid defnydd gweddill yr adeilad i ffurfio rhan o siop bresennol, ynghyd â chreu cyfleusterau cysylltiol fel storfa, swyddfa a lle bwyta staff, ynghyd â mân newidiadau allanol yn cynnwys ffenestr ychwanegol ar edrychiad cefn a chau ffenestri ar yr edrychiad ochr – Roslyn, Lôn Rhoslyn, Aber-soch [Is-bwyllgor Cynllunio eisoes – **Cefnogwyd**]

[Derbyniwyd copi o ohebiaeth a anfonwyd at yr Adran Gynllunio oddi wrth Mrs. Jean Williams, Lôn Rhoslyn, yn gwrthwynebu'r cais uchod. Ymadawodd Cyng. Wyn Williams â'r ystafell pan ddarllenwyd y llythyr.]

**C15/0984/39/MG	Cais Diwygiedig ar gyfer materion a gadwyd yn ôl er mwyn diwygio dyluniad y tŷ – Tir gyferbyn â Cartrefle, Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Cefnogir**
**C15/1003/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd yn ei le – Bron Eifion, Aber-soch – **Cefnogir**, **yn dilyn pleidlais o 6-3, gan ei fod yn cydymffurfio â'r polisi. Ond, mynegwyd pryder am yr holl dai sy'n cael eu dymchwel a'u hailgodi yn Aber-soch a phenderfynwyd ysgrifennu llythyr i fynegi y dylid ailedrych ar y polisi**
**C15/1023/39/LL	Trosi adeilad allanol i fod yn estyniad i'r tŷ, codi estyniad deulawr newydd ar addasiadau a chadw gwaith peirianyddol – Frondeg, Llanengan **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Gosodwyd y mesurydd newydd erbyn hyn.
- Derbyniwyd prisiau oddi wrth ExtraEnergy Electricity (pris dyddiol 6.93c ac uned 10.33c y dydd) a NPower Business (pris uned 11.70 c/kWh – cytundeb blwyddyn; 11.59 c/kWh – dwy flynedd a 12.13 c/kWh – tair blynedd a £21.92 y chwarter o bris sefydlog, ynghyd â £50.00 credyd i'r mesurydd) o gymharu â'r hyn a gynigiai British Gas (5% o leihad ar brisiau trydan y gytundeb bresennol a ddaw i ben ar Chwefror 17eg, 2016 pe adnewyddwyd hi cyn diwedd mis Medi – 12.274c yr uned a 19.637c pris sefydlog; penderfynwyd derbyn cytundeb dwy flynedd NPower Business ar ôl cysylltu â British Gas i ofyn a allai gynnig pris cystal.
- Derbyniwyd prisiau glanhau'r toiledau 2015 – 2016 fel a ganlyn:
    - dwywaith y dydd (Ebrill 1af – Tachwedd 1af) – £2391.00 + TAW
    - unwaith y dydd (Tachwedd yr ail – Ebrill 3ydd, 2016) – £1273.00 + TAW

  ynghyd â chloi'r giât – £33.00 yr wythnos yn cynnwys TAW.
  Awgrymwyd efallai y gallai'r glanhawr agor a gofyn i Gwyn Parry ei chloi – holir am hyn.

b) **Biniau Baw Cŵn**
Derbyniwyd cwynion am drigolion lleol yn mynd â chŵn i Gae Chwarae Mynytho a gofynnwyd a fyddai modd plismona'r llwybr heibio'r Garth (llwybr cwrteisi), gan fod cymaint o faw cŵn arno. Hysbyswyd y Warden Gorfodaeth Stryd o'r uchod a bwriada gadw golwg ar y ddau pan fydd yn yr ardal nesaf.

c) **Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach parthed y gytundeb newydd a ddarpara Merfyn Pugh i denant Pen y Mynydd.

ch) **Gwefan y Cyngor**
Anfonwyd mwy o ddogfennau ond, nid yw'r wefan yn fyw eto.

d) **Glanhau Afon Soch**
Derbyniwyd dadansoddiad o'r hyn sy'n ddyledus (£2469.60 yn cynnwys TAW) –
oddi wrth Roberts Ffestiniog; penderfynwyd na ellid datrys y broblem o ran anfonebu tirfeddianwyr ochr isaf i Hendy heb gael y gweithiwr ddod draw i ddangos ble'n union a lanhaodd, ynghyd ag i'r cwmni anfon anfoneb yn *Recorded Delivery* at y ddau ddyledwr arall.

dd) **Meddygfa Aber-soch**
Derbyniwyd cydnabyddiaeth y soniwyd am adeilad Banc y NatWest wrth y Bwrdd Iechyd, ynghyd ag ychwanegu mai ychydig iawn o gynnydd a gafwyd o adnabod eiddo arall ar gyfer y feddygfa.

e) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'**
- Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth y cwmni datblygu.
- Cyflwynwyd cais ar gyfer Cyllid Prosiectau Graddfa Fach Llywodraeth Cymru a derbyniwyd gohebiaeth yn hysbysu oherwydd y derbyniwyd cynifer o geisiadau (240) na ellid dyfarnu'r nawdd ar Hydref 1af fel y

gobeithid ac y gohiriwyd hynny tan yr wythnos hon – ni dderbyniwyd ateb cyn heno. Yn y cyfamser, deallwyd fod arian yng Nghronfa AHNE – anfonwyd cais ac eistedda'r Panel ar Hydref 21ain; mae angen caniatâd cynllunio ac atal llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth am nawdd o hyd at £12,000 gan Tesco (trosglwyddwyd arian am y bagiau plastig i'r elusen Groundwork) – dyddiad cau hwnnw yw Tachwedd 30ain.

f) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Anfonwyd llythyr ym mynegi pryder am y materion a godwyd dros y misoedd diwethaf.

ff) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd ymddiheuriad am yr oedi parthed cofrestru tir Maes Awel â'r Gofrestrfa Tir ac y llunnir gweithred a Datganiad i'w trosglwyddo. Awgrymwyd, o weld cynllun 23 Maes Awel, efallai fod y mesuriadau'n anghywir, gan y gall hynny ddigwydd weithiau – cysylltir â'r Cyfreithiwr.

g) **Canllawiau ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Cyfieithu**
Cadarnha Uwch Swyddog Ymchwilio a Gorfodi Comisiynydd yr Iaith y noda Cynllun Iaith Llywodraeth Cymru y cyhoedda ddeunyddiau yn ddwyieithog, yn unol â'i methodoleg blaenoriaethu cyfieithiadau. Gan y cynhwyswyd hyn yn y Cynllun Iaith ni fydd y Comisinydd mewn sefyllfa i gymryd unrhyw gamau pellach.

ng) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Cynhaliwyd y sesiwn galw mewn yn Neuadd Aber-soch brynhawn heddiw. Derbyniwyd gohebiaeth yn gofyn am gefnogaeth oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ieuenctid Eryri a'r Adran Hawliau Tramwy. Penderfynwyd i bawb feddwl am y gwasanaaethau erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

h) **Llythyr Ymddiswyddiad – Cyfethol i Sedd Wag Achlysurol yn Ward Aber-soch**
Ni dderbyniwyd enw(-au) ar gyfer cyfethol.

i) **Cyngor Tref Cricieth – Gwrthwynebiad i Gais Cynllunio**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor yn gefnogaeth i'r uchod.

l) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Y Côd Ymddygiad i Aelodau**
Mynychodd OHR yr hyfforddiant uchod a rhoddodd adroddiad byr ohono.

ll) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**
Gohebiaeth yn hysbysu ei bod yn amser cynnal yr uchod – £45.00 am archwiliad heb gwmni. Derbyniwyd amcanbris oddi wrth G.L. Jones – £185.00 yr un – ac eglurhad o beth ydyw; penderfynwyd ei fod yn rhy ddrud er yr hoffid cefnogi cwmni lleol.

m) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach pan ofynnwyd a oes rhaid gwneud cais arall am Is-ddeddf, gan nad oes cofnod o un yng Nghaernarfon.

n) **Ceisiadau Ariannol**
Derbyniwyd llythyrau diolch am y cyfraniadau, ynghyd ag eglurhad oddi wrth Shelter Cymru am ei ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned ac y cynorthwywyd 518 o bobl ar draws Gwynedd yn 2014 – 2015.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Masnachu ym Mhorth Neigwl**
Derbyniwyd eglurhad oddi wrth Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, am y fan gwerthu bwyd ychwanegol – mae gan yr unigolyn, sy'n masnachu o fewn ffin y maes parcio, awdurdod i wneud hynny a chaniatâ ei drwydded hufen iâ a bwydydd ysgafn, ynghyd â hyd at ddau gerbyd ar y safle. Nid oes gan yr unigolyn(-ion) sy'n masnachu tu allan i'r maes parcio awdurdod. Gobeithia y gellir datrys hyn er budd y busnes a gyflwynodd dendr llwyddiannus ar gyfer y goddefiad.

b) **Materion y Gymuned**
Derbyniwyd ateb i e-byst a anfonwyd at sylw'r Adran yn ddiweddar:

i) clytir y ffordd ger Morwel yn y dyfodol agos
ii) rhaglennwyd gwaith i ailwynebu ffordd Cilan yn y dyfodol agos – cwblhawyd o Lôn Groes at Tai'r Lôn/Gilfach erbyn hyn; derbyniwyd Rhybudd Gorchymyn Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro am gau'r ffordd am 500 medr mewn cyfeiriad deheuol o Gilfach rhwng 7.30 y bore a 5.30 yr hwyr yn unig o Hydref 26ain am dridiau
iii) rhaglennwyd torri'r gordyfiant ger Bodlondeb, Sarn Bach – cwblhawyd erbyn hyn ond, deil pryder bod rhaid i gerddwyr gamu i'r ffordd rhwng mynedfa'r tŷ a'r cae carafannau; cysylltir eto a sôn am y perygl i gerddwyr ger Ysgubor Wen – mae angen tocio dwy goeden siacan – gan ei bod mor gul a pherygl yno ar y gorau
iv) trosglwyddwyd y mater o docio clawdd terfyn Ystád Bryn Garmon/Bro Aber at sylw'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd er mwyn dilyn y broses cyflwyno rhybudd torri gordyfiant ar y perchennog dilys.

c) **Biniau Halen**
Oherwydd sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd penderfynodd na all barhau â'r ddarpariaeth o lenwi, ailgyflenwi a chynnal a chadw'r biniau halen, gan nad yw'n ddyletswydd statudol i wneud hynny, o Ebrill 1af, 2016. Cynigir i gynghorau cymuned gymryd cyfrifoldeb ohonynt – mae deg yn y gymuned hon. Amcangyfrifir, ar hyn o bryd, y bydd y gost yn £156.00 y bin (x10 = £15,600) a phe dymunir prynu, gosod a llenwi un newydd tua £281.00. Penderfynwyd meddwl amdano erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

ch) **Rhaglen Waith mis Hydref**
- Newid colofnau goleuadau – Cae Du, Aber-soch.
- Gwaith traenio – Machroes, Bwlchtocyn.

d) **Mrs. Wendy Lloyd Jones, Cilan – Cilffordd 13 (Lôn Groes, Cilan)**

Copi, er gwybodaeth, o lythyr a anfonodd yr uchod at sylw yr Adran Ffyrdd a Thrafnidiaeth, yn mynegi pryder am y diffyg lleoedd pasio sydd ar y gilffordd oherwydd datblygiadau tai unigol.

dd) **Gor-yrru ym Mynytho**
Yn dilyn derbyn cwynion am or-yrru, deallwyd y gellid gofyn i fan GanBwyll yr Heddlu gadw golwg ar y sefyllfa.

e) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Rhybudd Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Dwyfor) 2015**
Copi o'r uchod yn hysbysu y daw i rym ar Dachwedd yr ail, sef y gilfan gyferbyn â Gwesty Sant Tudwal, Aber-soch – newid amser cyfyngu parcio – a phaentio llinellau melyn ar dri safle rhwng maes parcio Porth Neigwl a Fferm Towyn.

6. MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS

Nodir sylwadau Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ar b), ch), d), dd) ac e) isod:

a) ***Arwydd Mynyddoedd Eryri ar y Llwybr Arfordir ger Cim***
Ni wnaed dim â'r uchod.

b) ***Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
Nis ailagorwyd oherwydd byd natur a gobeithir gwneud o gwmpas y Nadolig.

c) ***Taith Gerdded Ddigidol***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Seimon Jones.

ch) ***Shanty, Pen Bennar***
Anghofiodd ofyn i'w gyd-swyddog yng Nghaernarfon ac nid yw'n gweithio yr wythnos hon oherwydd profedigaeth deuluol.

d) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
Archwiliodd yr uchod er mai Categori 4 ydyw – cred y buasai costau ailagor rhan gyntaf y llwybr (Siop Cilan i Garreg Lwyd) yn rhesymol (cost gosod giatiau newydd yn y terfynau), ond, mater arall yw'r rhan sy'n disgyn i'r Nant. Cerddodd Llwybr 17 (Lôn Las i Furpoeth, Categori 2) yr un pryd – mae angen datrys dau fater arno a chred eu bod yn eithaf syml ac argymhella y byddai'n well canolbwyntio ar hwn yn y dyfodol agos na Llwybr 18.

dd) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Aflwyddiannus fu'r chwilio yng Nghaernarfon am unrhyw ddogfennaeth parthed yr uchod a gofynna am ba gyfnod y digwyddodd – saithdegau'r ganrif ddiwethaf.

e) ***Torri'r Llwybrau***
Gwiriai anfoneb y contractwr cyn trefnu ad-daliad. Noda na chydymffurfir â'r 'cytundeb' ar hyn o bryd oherwydd na thorrir llwybrau ar yr adegau cywir. Os mai ond un toriad a wneir, rhaid oedi tan ddiwedd mis Mehefin er mwyn dal y

tyfiant fel rhedyn a'i gwblhau cyn dechrau gwyliau'r ysgol. O ganlyniad, cytuna, oherwydd bod cymaint o lwybrau yn y gymuned hon, ei bod yn amhosibl i un contractwr ymgymryd â'r gwaith o fewn cyfnod mor fyr ac y buasai'n syniad rhannu'r gwaith rhwng mwy nag un. Anfonwyd copi o Gytundeb Torri Llwybrau Cyngor Cymuned Dolbenmaen at bawb er gwybodaeth – penderfynwyd ei mabwysiadu.

7. **ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG/ARIANNOL A PHOLISÏAU**

Mabwysiadwyd y polisïau isod:

- Iaith (adolygwyd)
- Gwirfoddoli
- Iechyd a Diogelwch.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Paratoi ar gyfer Cynhadledd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 2015***
Anfonir adroddiadau a gynhyrchir yn sgîl y diwrnod.

ii) ***Arolwg Siarter y BBC***
Copi o'r ymgynghoriad a ddaw i ben ar Dachwedd 5ed.

iii) ***Papur Gwyrdd: Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd***
Angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn Tachwedd 20fed.

iv) ***Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol***
Copi, er gwybodaeth.

v) ***Cyllid ar gyfer Prosiectau Cymunedol Tyfu'n Wyllt 2015-2016 a Phecynnau Hadau am Ddim Tyfu'n Wyllt 2016***
Gwahoddiad i fudiadau a grwpiau cymunedol ledled Cymru wneud cais am arian rhwng £1,000 – £4,000 gan Tyfu'n Wyllt i greu llecynnau ysbrydoledig. Gellir cofrestru ar gyfer y pecynnau hadau i dderbyn rhai blodau gwyllt sy'n frodorol i'r wlad.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2016***
Angen sylwadau erbyn Tachwedd 30ain.

ii) ***Deiseb – Codi Tâl ar gyfer Parcio a'r Berthynas â Strydoedd Mawr a'u Llwyddiant***
Copi o'r uchod, er gwybodaeth a sylwadau.

c) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl dan Adran 78 Cais Cynllunio C15/0266/39/LL Pen y Cae, 6 Maes Awel, Aber-soch**
Llythyr yn hysbysu'r uchod – anfonwyd sylwadau'r Cyngor eisoes.

ch) **Mr. M. Farmer, 16 Winchester Avenue, Beeston, Nottingham**
Llythyr yn pwysleisio mai gwastraff arian trethdalwyr oedd adeiladu'r lloches bws ym Mwlchtocyn.

d) **Caffi'r Cof**

Cais oddi wrth Mrs. Elisabeth Jones, Aber-soch, trwy law'r Cyng. Wyn Williams, am gyfraniad ariannol at yr uchod, sef caffi ar gyfer pobl â demensia a'u gofalwyr a chyfeillion fydd yn cychwyn yn CIP Pwllheli ar brynhawniau Mercher cyntaf y mis rhwng dau a phedwar o'r gloch; penderfynwyd cyfrannu can punt.

dd) **Swyddfa Archwilio Cymru – Trefniadau Archwilio Allanol: Ffurflenni Blynyddol 2015 – 2016, 2016 – 2017 a 2018 – 2019**

Llythyr yn hysbysu mai Archwilydd Cyffredinol Cymru fydd Archwilydd Statudol y Cyngor yn dilyn diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 gan Adran 11 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a chwblhau archwiliad y flwyddyn ariannol ddiwethaf gan UHY Hacker Young. Cwmni o Southampton (BDO LLP) fydd yn gyfrifol o hyn allan.

e) **Oedolion, Iechyd a Llesiant – Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd**

Llythyr yn hysbysu y daeth y trefniant newydd i rym ar Hydref 5ed.

f) **W. Elfyn Williams, Uwch Swyddog Gorfodaeth Cynllunio**

- ***Yr Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch*** – Yn dilyn derbyn cwynion am 'garafán' deithiol newydd a osodwyd, derbyniwyd yr ateb a ganlyn oddi wrth WEW, "*Gwelais ambell garafán deithiol debyg i'r un a osodwyd ar yr Iard Lo. Nid oes modd gwneud dim ar hyn o bryd. Tybiaf y bydd yr uned yn cael ei thywys oddi ar y safle ar ôl i'r tymor gwyliau gau.*"
- ***Bryn Cethin Fawr, Lôn Garmon, Aber-soch –*** Disgwylir cais cynllunio ar gyfer yr adeilad newydd llai, yn dilyn tynnu'r adeilad gwreiddiol i lawr; mae o ddyluniad derbyniol ac ni all weld gwrthwynebiad iddo.

ff) **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Eich Gwasanaeth Chi, Eich Dewis Chi – Ymgynghoriad Cyhoeddus 2016 – 2017 a thu hwnt**

Llythyr yn hysbysu'r uchod ac estyn gwahoddiad i gymryd rhan – angen sylwadau erbyn Rhagfyr 11eg.

g) **Wayforward (Shropshire) Limited –** ***Proposed Works on Overhead Power Line***

Llythyr, yn dilyn galwad ffôn, yn hysbysu y bwriada ScottishPower gynnal gwaith cynnal a chadw ar linell uwchddaearol yn Estyniad y Fynwent. Amgaewyd ffurflen *wayleave* i'w harwyddo a'i dychwelyd cyn gynted â phosibl.

9. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C14/0993/39/TC	Cadw siale a ddefnyddiwyd ar gyfer defnydd preswyl parhaol – Bryn Onnen, Lôn Engan, Aber-soch **– Caniatawyd (TC yn unig)**
C15/0708/39/LL	Lleoli tair carafán sefydlog ychwanegol, ail-leoli un sefydlog, lledu ffordd fynediad i greu ymyl gwyrdd i gerddwyr, adeiladu trac grasscrete ar gyfer yr ardal storio cychod, adeiladu wyneb caled mewn rhan o'r ardal storio cychod a gwaith tirlunio – Tyddyn Talgoch Uchaf, Bwlchtocyn – **Gwrthod**

C15/0761/39/LL	Estyniad unllawr ochr a chefn ac ymestyn modurdy i'w ddefnyddio fel ystafell ychwanegol i'r tŷ – Rose Lea, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/0770/39/LL	Dymchwel tai presennol a chodi tŷ newydd ac anecs yn ei le a gwaith cysylltiedig – Ger y Môr a Gwynt y Môr, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/0796/39/LL	Ymestyn cwrtil a gosod decin pren – Sea Breeze, Stryd Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0812/39/LL	Cais Diwygiedig – Dymchwel porth car a chodi estyniad deulawr ochr, amgáu balconi presennol â strwythur gromen a gosod pwmp ffynhonnell aer ar ochr y tŷ – Nant y Mynydd, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0845/39/AC	Cais rhyddhau Amodau 2 (tirlunio) a 6 (dull gwaredu dŵr aflan a wyneb) ar Ganiatâd Rhif C11/1106/39/MG – Tir ger Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**

10. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Hydref y Clerc (Rh/S 001942), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Adeiladol Cyf. – £600.00 (Rh/S 001938 – Taliad Olaf)
b) Cyngor Gwynedd – £612.05 (Rh/S 001939 – Gwagio Biniau'r Caeau Chwarae)
c) British Gas – £38.47 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
ch) Griffith Williams & Co. – £89.44 (Rh/S 001940 – Gweinyddu Cyflog y Clerc)
d) Caffi'r Cof – £100.00 (Rh/S 001943 – Cyfraniad)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £131.30 (£64.20, £16.50, £18.80, £31.80)
b) British Gas – £38.47 (Credyd anfoneb c) uchod)
c) R.O. Jones, Ymgymerwr – £240.00 (Tâl Claddu)

11. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Tachwedd 11eg, 2015 am saith o'r gloch